# Cyflafan Babi Yar

HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

*Learning from genocide - for a better future*

**Rhybudd: mae cynnwys graffig yn yr adnodd hwn**

**Dinistriwyd cymuned Iddewig Kiev yng nghyflafan Babi Yar, a ddechreuodd ar 29 Medi 1941 – un o weithredoedd unigol mwyaf marwol yr Holocost.**

*Penderfynodd yr holl Iddewon fynd oherwydd eu bod nhw'n meddwl y bydden nhw'n cael gadael ar drên, gan fod yr orsaf reilffordd gerllaw. Fyddai neb wedi gallu rhagweld dienyddiad torfol.*

**Raisa Maistrenko, un o'r 29 y mae'n hysbys iddyn nhw oroesi Babi Yar**

## Bywyd Iddewig yn Wcráin cyn y rhyfel

Roedd Wcráin wedi bod yn gartref i gymuned Iddewig fawr am ganrifoedd, yn dyddio'n ôl cyn belled â'r wythfed ganrif. Fodd bynnag, anaml iawn yr oedd bywyd i Iddewon Wcráin yn gysurus, gyda thonnau o wahaniaethu, rhagfarn a thrais yn targedu'r gymuned. Cyn yr Ail Ryfel Byd, roedd Kiev yn gartref i'r gymuned Iddewig fwyaf yn Wcráin, gydag Iddewon yn 20 y cant o boblogaeth y ddinas.

Yn ystod Chwyldro Rwsia, a arweiniodd at sefydlu Wcráin Sofietaidd, roedd trais gwrth-semitig yn rhemp. Sathrwyd ar fywyd a diwylliant Iddewig yn syth ar ôl sefydlu Undeb y Gweriniaethau Sofiet Sosialaidd (USSR). Roedd pleidiau gwleidyddol Iddewig a sefydliadau Seionaidd yn cael eu gorfodi i weithredu yn y dirgel wrth i'r llywodraeth Gomiwnyddol geisio cael gwared ar unrhyw wrthwynebwyr posibl. Gwaharddwyd sefydliadau addysgol, diwylliannol a chrefyddol Iddewig. Roedd llawer o ddioddefwyr 'Diarddeliad Mawr' Stalin yn 1936-1937 yn Iddewon a gyhuddwyd o fradwriaeth a throseddau gwrth-Sofietaidd.

## Iddewon Wcrainaidd yn yr Holocost

Ar ôl i gytundeb Molotov-Ribbentrop rhwng yr Almaen a'r USSR ddod i ben yn 1939, rhoddodd Stalin addewid i Weinidog Tramor y Natsïaid y byddai'n cael gwared ar 'dra-arglwyddiaeth Iddewig' yn yr USSR. Gorchmynnodd ddiarddel gweithwyr Iddewig o weinyddiaethau llywodraeth, prifysgolion, y fyddin a sefydliadau mawr eraill. Daeth cynnydd mewn trais a gwahaniaethu i gyd-fynd â hyn. Gwelwyd mwy fyth o ymosodiadau ar Iddewon yn dilyn Ymgyrch Barbarossa ar 22 Mehefin 1941, pan wnaeth y llywodraeth Natsïaidd, yn groes i'w chytundeb â'r USSR, ymosod ar Wcráin a meddiannu'r weriniaeth. Erbyn 19 Medi 1941, roedd byddin yr Almaen wedi cipio Kiev.

Cyfrannodd cefnogaeth gan genedlaetholwyr Wcrainaidd arfog, y wasg ac aelodau o'r heddlu ategol at drais gwrth-semitig eithafol yn nyddiau cynnar yr ymosodiad Natsïaidd. Cafodd cyfres o ffrwydradau yn Kiev gan yr heddlu cudd Sofietaidd rhwng 20 a 28 Medi, yn erbyn meddiannaeth yr Almaen, eu beio ar boblogaeth Iddewig y ddinas. I ddial, penderfynodd arweinwyr Natsïaidd ddifa cymuned Iddewig Kiev.

## Babi Yar: llofruddiwyd dros 33,000 o bobl Iddewig

Dros ddeuddydd, gan ddechrau ar 29 Medi 1941, llofruddiwyd dros 33,000 o bobl Iddewig yn Babi Yar.

O 26 Medi ymlaen, codwyd arwyddion mewn Rwsieg, Almaeneg ac Wcraineg o amgylch dinas Kiev, yn gorchymyn poblogaeth Iddewig y ddinas i ymgynnull yn Babi Yar. Ceunant ar gyrion Kiev yw Babi Yar, a fu unwaith yn lleoliad i un o fynwentydd Iddewig niferus y ddinas. Dyma oedd yr arwyddion yn ei ddweud:

*'Ddydd Llun, 29 Medi, rydych i ymgynnull erbyn 7:00am gyda'ch eiddo, arian, dogfennau, pethau gwerthfawr a dillad cynnes yn Stryd Dorogozhitshaya, wrth ymyl y fynwent Iddewig. Bydd methu â gwneud hynny'n cael ei gosbi gan farwolaeth.'*

Drwy gasglu yn y ceunant ar yr amser penodedig, arweiniwyd y bobl Iddewig i gredu y bydden nhw'n cael eu hailgartrefu'n ddiogel mewn rhan arall o'r wlad. Yn hytrach, fe'u llofruddiwyd yn un o ddigwyddiadau mwyaf marwol yr Holocost.

Roedd Raisa Maistrenko yn un o ddim ond 29 o bobl y mae'n hysbys iddyn nhw oroesi. Pan oedd hi'n dair oed, lladdwyd 18 o'i pherthnasau yn Babi Yar. 'Penderfynodd yr holl Iddewon fynd oherwydd eu bod nhw'n meddwl y bydden nhw'n cael gadael ar drên, gan fod yr orsaf reilffordd gerllaw,' meddai. 'Fyddai neb wedi gallu rhagweld dienyddiad torfol.'

Arweiniwyd y lladd gan yr Einsatzkommando, is-grŵp o'r Einsatzgruppen Natsïaidd a oedd yn gyfrifol am lofruddiaeth systematig Iddewon, comiwnyddion, Sinti a Roma yn ymosodiad yr Almaen ar yr Undeb Sofietaidd. Cefnogwyd yr Einsatzkommando gan yr heddluoedd ategol a chefnogwyr lleol y gyfundrefn Natsïaidd. **Er bod amcangyfrifon o nifer yr Iddewon a laddwyd yn Babi Yar yn amrywio, yn ôl adroddiadau gan yr Einsatzgruppen i'r pencadlys, cafodd 33,771 o Iddewon eu lladd mewn dau ddiwrnod.** Yn ystod meddiannaeth y Natsïaid, amcangyfrifir bod rhwng 900,000 ac 1.6 miliwn o Iddewon Wcrainaidd wedi'u llofruddio.

## Y teulu Halef

Roedd Mania Halef yn un o'r 33,000 a mwy o Iddewon a laddwyd yng nghyflafan Babi Yar. Ganed Mania yn Kiev yn 1934 i Iosef Halef, a anwyd yn 1900, a Klara Miropolsky Halef, a anwyd yn 1905. Dim ond saith oed oedd Mania pan gafodd ei lladd. Ychydig iawn sy'n hysbys am brofiadau'r teulu Halef cyn ac yn ystod y gyflafan, na phrofiadau'r dioddefwyr eraill hynny na fyddwn byth yn clywed hanesion eu bywydau.



Dyma lun o Mania Halef yn 5 oed.
Ffotograff yn eiddo i: Amgueddfa Cofio'r Holocost yn yr UDA, gyda chaniatâd Yelena Brusliovsky

## Tystiolaeth un llygad-dyst

Ychydig sy'n hysbys am y rhai a lofruddiwyd yn ystod cyflafan Babi Yar, gan mai prin iawn oedd y rhai a oroesodd. Cafwyd y dystiolaeth ganlynol gan un llygad-dyst i'r gyflafan, gyrrwr lori:

*'Fe wnes i wylio beth ddigwyddodd pan gyrhaeddodd yr Iddewon – dynion, merched a phlant. Arweiniodd yr Wcrainiaid hwy heibio i nifer o wahanol leoedd, lle'r oedd yn rhaid iddyn nhw, un ar ôl y llall, dynnu eu bagiau, yna eu cotiau, eu hesgidiau a'u dillad, yn cynnwys eu dillad isaf... Ar ôl dadwisgo, arweiniwyd yr Iddewon i'r ceunant, a oedd tua 150 metr o hyd a 30 metr o led a 15 metr da o ddyfnder... Pan gyrhaeddon nhw waelod y ceunant, fe wnaeth aelodau o'r Schultpolizei afael ynddyn nhw a'u gorfodi i orwedd ar ben Iddewon a oedd eisoes wedi'u saethu. Digwyddodd hynny i gyd yn gyflym iawn. Roedd y cyrff yn llythrennol mewn haenau.'*

Ar ôl y gyflafan, parhaodd y safle yn Babi Yar i gael ei ddefnyddio gan y Natsïaid ar gyfer dienyddio torfol Iddewon, swyddogion Sofietaidd, carcharorion rhyfel a dioddefwyr eraill erledigaeth y Natsïaid. Wrth i'r Fyddin Goch ddechrau symud ymlaen drwy diriogaeth ym meddiant yr Almaen, ceisiodd y Natsïaid guddio tystiolaeth o'r gyflafan drwy ddatgladdu'r cyrff, gan ddinistrio unrhyw olion a oedd yn weddill o'r rhai a lofruddiwyd. Rhyddhawyd Kiev gan y Fyddin Goch ar 6 Tachwedd 1943.

## Babi Yar heddiw

Mae 2021 yn nodi 80 mlynedd ers y gyflafan erchyll. I nodi'r garreg filltir hon, adeiladwyd synagog newydd ar y safle. Ar ôl cael ei chwalu gan y Natsïaid, bydd y safle bellach yn gartref i ganolfan goffa ac amgueddfa a fydd yn anrhydeddu'r rhai a lofruddiwyd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43960 Llywodraeth Cymru ISBN digidol 978-1-80391-339-1

Dysgwch fwy...

Yr Einsatzgruppen: **hmd.org.uk/Einsatzgruppen**

**Darllen pellach:**

- *E. Klee, W. Dressen, a V. Riess, The Good Old Days: The Holocaust As Seen by Its Perpetrators and Bystanders*
- *Anatoly Kuznetsov, Babi Yar: A Documentary Novel*

**hmd.org.uk**
**enquiries@hmd.org.uk**
020 7785 7029
**@hmd_uk**
**hmd.uk**
**holocaustmemorialdaytrust**

Dysgu o hil-laddiad – er mwyn dyfodol gwell